# Is-gadeirydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol

## Manyleb

**Cefndir**
Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddathliad o ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg ac fe'i cynhelir yn ystod wythnos gyntaf Awst bob blwyddyn.

Mae'r ŵyl yn teithio o le i le, gan ymweld â gogledd a de Cymru bob yn ail, a denu dros 175,000 o ymwelwyr a thros 250 o stondinau.

Mae'r ŵyl wedi datblygu ac esblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ac er bod y cystadlaethau yn parhau i fod yn ganolog i arlwy'r wythnos, gan ddenu dros 6,000 o gystadleuwyr bob blwyddyn, mae'r Maes wedi tyfu i fod yn ŵyl fywiog gyda channoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y teulu cyfan.

Disgrifiwyd yr Eisteddfod fel prosiect adfywio teithiol blaenaf Cymru, ac wythnos yr Eisteddfod yw uchafbwynt prosiect cymunedol sy'n para dwy flynedd, gan ddod â phobl o bob oedran a chefndir o gymunedau mewn rhan wahanol o Gymru ynghyd.

Gyda chymysgedd o waith all-ymestyn, prosiectau addysg gydol oes a chyfleoedd gwirfoddoli, mae'r prosiect cymunedol yn llywio'r paratoadau ar gyfer yr ŵyl, gan roi cyfle i bobl leol wneud eu marc ar ein gŵyl genedlaethol.

**Strwythur yr Eisteddfod**
Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi'i chofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif: 1155539). Mae system reoli barhaol yn cynnwys y Llys, y Bwrdd Rheoli (Ymddiriedolwyr), y Cyngor a'r Orsedd.

Mae Cyngor yr Eisteddfod yn gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol, ac mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys edrych i'r dyfodol a chymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, gydag o leiaf dau o'r tri chyfarfod ar-lein erbyn hyn, yn unol â dymuniad yr aelodau, gyda chyfarfod yn yr hydref, gwanwyn a'r haf.

**Y Rôl**
Rydym yn gwahodd enwebiadau am rôl Is-gadeirydd Cyngor yr Eisteddfod. Bydd yr unigolyn a etholir hefyd yn aelod ex officio o Fwrdd Rheoli'r Eisteddfod ac yn gwasanaethu fel Ymddiriedolydd Elusen.

Bydd Is-gadeirydd y Cyngor yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn absenoldeb y Cadeirydd, gan sicrhau bod gan yr aelodau lais clir yng ngwaith a chyfeiriad strategol yr Eisteddfod.

Bydd disgwyl i'r Is-gadeirydd gynrychioli'r Elusen i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd a seremonïau yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac yn achlysurol trwy gydol y flwyddyn. Bydd hefyd cyfrannu tuag at waith Bwrdd Rheoli a rhai o is-bwyllgorau a phanelau canolog yr Eisteddfod.

**Profiad a Sgiliau**

- Dealltwriaeth drylwyr o waith yr Eisteddfod Genedlaethol, diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg;
- Sgiliau cadeirio a chyfathrebu o safon uchel yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Profiad o lywodraethiant a'r gallu i gyd-weithio'n adeiladol gydag aelodau Cyngor yr Eisteddfod, yr Ymddiriedolwyr a'r Tîm Rheoli;
- Y gallu i gymryd rhan mewn digwyddiadau er mwyn hyrwyddo gwaith yr Eisteddfod;
- Profiad o ddatblygu perthnasau adeiladol ac effeithiol, ac o ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol;
- Y gallu i wasanaethu a chyfrannu i waith rhai o is-bwyllgorau canolog yr Eisteddfod (e.e. Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl; Panel Enwebu; Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg);
- Parodrwydd i fynychu cyfarfodydd gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol.

**Manylion Pellach**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr allu cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg, gyda'r gallu i gyfathrebu yn Saesneg mewn cyfarfodydd allanol o dro i dro

Mae'r rôl yn ddi-dâl ond telir cyfraniad tuag at gostau llety a theithio. Bydd y penodiad am gyfnod o hyd at dair blynedd.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, gydag o leiaf dau o'r tri chyfarfod ar-lein erbyn hyn, yn unol â dymuniad yr aelodau, gan gyfarfod yn yr hydref, gwanwyn a'r haf.

Cynhelir o leiaf wyth cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli'r flwyddyn ar-lein neu wyneb-yn-wyneb yn swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ac yn nalgylch yr Eisteddfod ganlynol, y noson cyn y Cyhoeddi ym mis Mai bob blwyddyn.

Rydym yn annog ac yn croesawu ceisiadau gan unigolion o bob cefndir a chymuned, ac mae ein Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid sicrhau cydbwysedd rhywedd o ran deiliaid rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor.

Os am gael eich ystyried, anfonwch grynodeb o hyd at 350 gair i gefnogi eich enwebiad trwy e-bost at betsan@eisteddfod.cymru erbyn **17:00, dydd Llun 3 Tachwedd 2025**, gan nodi 'Is-gadeirydd Cyngor yr Eisteddfod' yn llinell bwnc eich neges.

EISTEDDFOD

Bydd enwebiadau a chrynodebau’n cael eu cylchredeg i aelodau’r Cyngor cyn etholiad drwy’r post/ebost yn ystod mis Tachwedd. Bydd enw'r ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yng nghyfarfod y Cyngor ddiwedd Tachwedd 2025.

Am drafodaeth anffurfiol a chyfrinachol am y rôl a’r broses, cysylltwch â phrif weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses ar ebost, betsan@eisteddfod.cymru.